Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 642A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Melanie Watson (KPMG LLP) a gyflawnodd y gwaith hwn ar ran Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rhoi prosesau moderneiddio corfforaethol ar waith yn datblygu'n dda | 5 |
| Mae'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn helpu i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â moderneiddio'r Cyngor | 5 |
| Er bod y broses o roi'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad, megis dechrau y mae'r gwaith ac nid yw'r buddiannau wedi'u gwireddu eto | 7 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru asesiad corfforaethol o'r Cyngor yn 2013 fel rhan o'i rhaglen i Gymru gyfan. Nododd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny nifer o gynigion ar gyfer gwella.

**2.** Roedd un o'r cynigion ar gyfer gwella yn ymwneud â threfniadau'r Cyngor o ran cefnogi cynigion i foderneiddio gwasanaethau a sicrhau trawsnewid er mwyn cyflawni'r arbedion ariannol sylweddol sydd eu hangen yn ystod y blynyddoedd nesaf. Nododd yr adroddiad fod y Cyngor wedi dechrau llunio ei gynlluniau ar gyfer sicrhau arbedion pellach ond ei fod yn wynebu her sylweddol o ran rhoi prosiectau trawsnewid ar waith o fewn yr amserlen ofynnol.

**3.** Mae Uned Moderneiddio Corfforaethol o fewn y Cyngor sy'n helpu i gyflawni elfennau sylweddol o raglen trawsnewid y Cyngor. Fe'i goruchwylir gan y Bwrdd Moderneiddio Corfforaethol a sefydlwyd yn dilyn Asesiad Corfforaethol 2013.

**4.** Ceisiodd yr adolygiad hwn ateb y cwestiwn canlynol:

- **A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer rhoi prosesau moderneiddio corfforaethol ar waith yn effeithiol?**

**5.** Er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw aethom ati i adolygu dogfennaeth berthnasol a siarad â swyddogion ac aelodau perthnasol o'r Cyngor.

**6.** Canfu ein hadolygiad fod **trefniadau'r Cyngor ar gyfer rhoi prosesau moderneiddio corfforaethol ar waith yn datblygu'n dda.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn helpu i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â moderneiddio'r Cyngor;
- er bod y broses o roi'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad, megis dechrau y mae'r gwaith ac nid yw'r buddiannau wedi'u gwireddu eto.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rhoi prosesau moderneiddio corfforaethol ar waith yn datblygu'n dda

### Mae'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn helpu i ddatblygu dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â moderneiddio'r Cyngor

**7.** Mae'r Cyngor wedi rhoi Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol ar waith i gydgysylltu'r newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud er mwyn moderneiddio ei ffordd o weithio. Mae prif amcanion y Rhaglen Moderneiddio fel a ganlyn:

- gweithredu *Doethwaith,* sef fersiwn Conwy o weithio ystwyth ym mhob rhan o'r Cyngor;
- rhoi Strategaeth Swyddfeydd y Cyngor ar waith a fydd yn hwyluso'r broses o ddatblygu swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn.

**8.** Caiff y rhaglen moderneiddio ei llywio gan yr angen i'r Cyngor foderneiddio ei ffordd o weithio, er mwyn gwella effeithlonrwydd, lleihau costau a symleiddio asedau, tra'n cynnal gwasanaethau rheng flaen. Bydd y rhaglen yn golygu y bydd staff yn gallu gweithio mewn ffordd fwy hyblyg gyda chymorth technoleg fodern.

**9.** Mae strwythur llywodraethu'r Rhaglen yn gadarn. Sefydlwyd bwrdd rhaglen i oruchwylio cynnydd. Mae'r gweithgareddau yn gysylltiedig â chwe ffrwd waith, sef Asedau; Adnoddau Dynol; TGCh; Cwsmeriaid; Prosesau Busnes; a Chyfathrebu a Newid. Mae grŵp swyddogion y rhaglen ar waith er mwyn i arweinwyr allu rhannu cynnydd a chydgysylltu gweithgareddau a sefydlwyd Grŵp Sicrhau Ansawdd i herio allbwn y rhaglen. Mae Dogfen Diffinio'r Rhaglen yn nodi amcanion y rhaglen ac yn disgrifio sut y maent yn berthnasol i flaenoriaethau corfforaethol. Mae'n egluro rolau a chyfrifoldebau'r swyddogion a'r aelodau sy'n ymwneud â'r Rhaglen, a'r llwybrau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, caiff adroddiad ei gyflwyno i ddechrau gan arweinydd y ffrwd waith i grŵp swyddogion y rhaglen. Wedyn caiff ei adolygu gan y grŵp sicrhau ansawdd cyn ei gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen. Os bydd angen gwneud penderfyniad democrataidd mewn perthynas â'r adroddiad, caiff wedyn ei gyfeirio i'r corff gwneud penderfyniadau priodol h.y. y Cabinet neu'r Cyngor.

**10.** Mae'r Rhaglen wedi nodi'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol ac mae cynlluniau ar waith i unioni unrhyw ddiffygion presennol. Mae cyfarwyddwyr strategol a phrif weithredwr y Cyngor yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen yn ogystal â'r Arweinydd, dau aelod o'r cabinet a chadeirydd y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Caiff pob ffrwd waith ei goruchwylio gan arweinydd ffrwd waith a swyddog cymorth, ac mae gan y Rhaglen reolwr rhaglen llawn amser. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen cymorth TGCh ac Adnoddau Dynol ychwanegol ar y rhaglen wrth iddi fynd rhagddi. Mae'n bwriadu recriwtio staff ychwanegol i lenwi bylchau, wedi'u hariannu drwy gais am fenthyciad 'Buddsoddi i arbed' gan Lywodraeth Cymru, neu drwy arbedion yn y rhaglen gyfalaf os na fydd y cais hwn yn llwyddiannus. Mae disgwyl i Uwch Reolwr Newid y rhaglen ymddeol yn fuan, a chaiff olynydd ei benodi unwaith y bydd y broses o recriwtio i swydd pennaeth gwasanaeth wag wedi'i chwblhau. Er bod cynnwys aelod craffu ar Fwrdd y Rhaglen o fudd o ran hysbysu aelodau, dylai'r Cyngor gofio y gall trefniant o'r

fath achosi achos posibl o wrthdaro buddiannau wrth graffu ar benderfyniadau'r Rhaglen.

**11.** Mae elfennau rheoli'r prosiect ar waith er mwyn rheoli'r rhaglen yn effeithiol. Mae cynllun rhaglen ar waith sy'n rhannu gweithgareddau yn nifer o haenau. Er enghraifft, roedd haen 1, y disgwylid iddi ddod i ben ar 30 Medi, yn cynnwys drafftio Achos Busnes Doethwaith, coladu'r ymatebion i arolwg staff ar weithio ystwyth, drafftio Fframwaith Doethwaith a dechrau clirio swyddfeydd er mwyn creu gofod ar gyfer trefniadau gweithio wrth sawl gweithfan. Mae gan bob ffrwd waith hefyd ei gynllun prosiect ei hun. Ar hyn o bryd, mae'r Rheolwr Moderneiddio Corfforaethol wrthi'n cyfuno cynlluniau'r ffrydiau gwaith i greu un cynllun cyffredinol ar gyfer y rhaglen. Cyflwynir gwybodaeth fisol ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir i Grŵp Swyddogion y Rhaglen drwy adroddiadau ar y prif bwyntiau, a chyflwynir adroddiadau bob deufis i Fwrdd y Rhaglen.

**12.** Mae'r Cyngor wedi strwythuro'r Rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n agos â'r ddwy raglen drawsnewid sydd eisoes ar waith - moderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau i ailstrwythuro gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Mae cynrychiolwyr cyffredin ar fwrdd y tair rhaglen, megis y Pennaeth Adnoddau Dynol, ac mae partneriaid busnes o'r adran Adnoddau Dynol sy'n gysylltiedig â phob rhaglen yn cyfarfod yn rheolaidd fel grŵp i rannu profiad ac i sicrhau cysondeb. Mae aelodau o staff y gwasanaethau cymdeithasol a thîm gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau hefyd yn rhan o ffrydiau gwaith y Rhaglen a grŵp swyddogion y rhaglen er mwyn hwyluso trefniadau dysgu.

**13.** Mae'r Rhaglen yn dysgu gwersi o raglenni trawsnewid sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod dulliau gweithredu Doethwaith yn effeithiol. Bu Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol ar waith ers dros 18 mis ac fe'i defnyddir fel rhaglen beilot ar gyfer dull gweithredu gweithio ystwyth Doethwaith, gyda sawl aelod o staff yn dechrau gweithio wrth sawl gweithfan. Defnyddiwyd y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen beilot hon i lywio'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Doethwaith a Fframwaith Doethwaith i'w cyflwyno drwy'r Cyngor ehangach. Roedd yr adborth a gafwyd drwy gyfathrebu ac ymgynghori â staff yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn gadarnhaol iawn. Mae'r gwersi hyn bellach yn cael eu cymhwyso i'r trefniadau ar gyfer cyflwyno Doethwaith yn ehangach ac yn llywio cynnwys hyfforddiant i staff.

**14.** Mae'r staff yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am hynt y Rhaglen. Caiff swyddogion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Rhaglen eu hysbysu am waith y ffrydiau gwaith eraill drwy gyfarfod misol Grŵp Swyddogion y Rhaglen. Yn ogystal, mae cynrychiolydd o'r Ffrwd Waith Cyfathrebu a Newid yn mynd i gyfarfodydd pob un o'r ffrydiau gwaith eraill er mwyn sicrhau y caiff negeseuon a materion allweddol eu nodi. Mae'r Uwch Dîm Arwain (UDA) yn sicrhau y caiff y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ei rhaeadru'n rheolaidd i staff mewn amrywiaeth o ffyrdd megis drwy'r fewnrwyd, yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) ac mewn sesiynau briffio timau.

## Er bod y broses o roi'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad ar hyn o bryd, megis dechrau y mae'r gwaith ac nid yw'r buddiannau wedi'u gwireddu eto

**15.** Mae menter Doethwaith y Rhaglen yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad. Disgwylid i'r haen gyntaf o weithgareddau i gyflwyno Doethwaith gael ei chwblhau erbyn 30 Medi 2014. Erbyn hynny, roedd Achos Busnes Doethwaith wedi'i ddatblygu i'w gyflwyno i fwrdd y rhaglen ddechrau mis Hydref. Roedd yr achos busnes yn cynnwys asesiad o'r achosion strategol, y gweithlu, economaidd a rheoli o blaid newid, yn nodi amrywiol opsiynau o ran newid ac yn cynnwys canllawiau drafft Fframwaith Doethwaith, cynllun gwireddu buddiannau, cofnod risgiau a rhestr o gyfrifoldebau allweddol.

**16.** Mae agweddau swyddfeydd y rhaglen moderneiddio hefyd yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Cyngor yn adolygu nifer o gyflwyniadau tendr gan gontractwyr i ddarparu'r swyddfeydd newydd ym Mae Colwyn, ynghyd â gwaith i ddatblygu'r Ganolfan Ddinesig. Roedd hyn yn dilyn diwrnod llwyddiannus i ddatblygwyr yn ystod yr haf. Mae'r prosiect ar y trywydd cywir i ddewis ymgeisydd llwyddiannus ym mis Mawrth 2015 yn dilyn proses ddeialog gystadleuol dros y gaeaf (ar yr amod y daw tendrau derbyniol a fforddiadwy i law). Mae cynnwys y swyddfeydd newydd a'r Ganolfan Ddinesig gyda'i gilydd mewn un contract yn cynyddu'r effaith bosibl ar y Cyngor os bydd anawsterau gyda'r contract, ond cydnabuwyd hyn a chaiff ei fonitro.

**17.** Megis dechrau y mae'r broses o ddatblygu'r Rhaglen Moderneiddio Corfforaethol felly, hyd yn hyn, ni all ddangos unrhyw fuddiannau amlwg. Drafftiwyd cynlluniau gwireddu buddiannau fel rhan o'r achosion busnes dros Doethwaith a newid swyddfeydd. Mae'r cynllun gwireddu buddiannau ar gyfer Doethwaith yn cynnwys 28 o fuddiannau penodol wedi'u trefnu o dan bum thema megis 'gwella'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau' a'r 'amgylchedd a chynaliadwyedd'. Mae'r Cyngor yn bwriadu y bydd pob un o'r buddiannau yn y cynllun yn nodi sut y caiff y budd ei fesur ac y bydd yn cynnwys llinell sylfaen a mesur targed. Cynhwysir amserlen o ran pryd y gellir disgwyl y budd hefyd. Fodd bynnag, nid oes llinell sylfaen na mesurau targed gan bron i ddwy ran o dair o'r buddiannau a nodir ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bwlch hwn ac mae wedi sefydlu grŵp gorchwyl i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y mesurau a ddewisir yn berthnasol ac yn gadarn. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro'r cynnydd o ran cyflwyno mesurau cadarn wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk